

Diben y dasg gyfeiriol hon yw defnyddio eich dealltwriaeth o asesu ar gyfer asesu'r dysgu ac egwyddorion pedagogiaidd mewn gwersi.

Cewch ddewis o gynlluniau gwersi (sylwer eu bod ar fformatau cynllunio gwersi blaenorol). Eich gwaith chi yw gwella'r wers a gynlluniwyd.

Dylech anelu at wella'r wers trwy ystyried yr egwyddorion pedagogiaidd ganlynol:

Mae addysgu a dysgu da yn golygu dilyn egwyddorion Asesu ar gyfer Dysgu.

Ystyriwch y wers ac wedyn trafod sut y gellir gwella Asesu ar gyfer Dysgu yn y wers. Yn enwedig:

- Ystyriwch yr amcanion dysgu a'r meini prawf llwyddiant a sut y gellid annog dysgwyr i fynd i'r afael â nhw.
- Ystyriwch ansawdd y cwestiynau a'r cyfleoedd i'r dysgwyr siarad.
- Ceisiwch gynnwys ystod o strategaethau Asesu ar gyfer Dysgu gydol y wers.

Defnyddiwch dempled cynllunio gwersi newydd yr Athrofa i gyflwyno'r wers yr ydych wedi ei gwella a sicrhau eich bod yn gallu cyfiawnhau'r dewisiadau rydych wedi eu gwneud i'w gwella. Dylai fod modd i bawb yn y grŵp wneud hyn.

Meini Prawf Llwyddiant.

Rydym yn chwilio am gynllun gwers ar yr un templed sydd:

-yn dangos dealltwriaeth o amcanion dysgu a meini prawf llwyddiant a sut y gallai'r dysgwyr ymwneud â nhw

-yn dangos dealltwriaeth o gwestiynu strategaethau a chyfleoedd ar gyfer siarad dysgwyr

-yn dangos strategaethau Asesu ar gyfer Dysgu drwyddi draw

Rhaid bod pob person yn y grŵp yn gallu cyfiawnhau'r dewisiadau a wnaed.

Meddwl pellach

Pa egwyddorion pedagogiaidd eraill y gallai eich cynllun gwers eu dangos? Gwerthuswch eich gwers ynghylch egwyddorion pedagogiaidd Donaldson (2015) (gwelir Pennod 5 Dyfodol Llwyddiannus a/neu lawlyfr ECAD6008/C).